Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN04 Caniau metel, tuniau, erosolau a ffoil.

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |

| Nodyn Cyfarwyddyd ar Reoli Gwastraff WMGN04 Caniau metel, tuniau, erosolau a ffoil. | |
|---|---|
| Lleoliad cynhyrchu | Pob ardal |
| EWC | 20-01-04 |
| Math | Gwastraff a reolir nad yw’n beryglus |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o Fin/Fag | Rhes o bedwar bin/Bag clir |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai busnes neu gorff cyhoeddus sy’n cynhyrchu deunyddiau gwastraff gymhwyso’r hierarchaeth gwaredu gwastraff i’r holl ffrydiau er mwyn lleiafu maint y gwastraff sy’n cael ei anfon i’w waredu. Yn ymarferol, golyga hyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddidoli cyn ei waredu drwy’r ffrwd gywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae’r rheoliadau’n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i’w gilydd os oes angen annog ansawdd uchel deunyddiau sydd i’w hailgylchu. Mae’r rhan fwyaf o duniau bwyd a chaniau diodydd wedi’u gwneud o alwminiwm neu ddur sy’n hawdd eu hailgylchu.

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n berthnasol i bob busnes yng Nghymru. Mae'r rheoliad hwn yn pennu gofynion mwy llym am ofynion gwahanu deunyddiau ailgylchu ac yn cynnwys eitemau ychwanegol i'w hailgylchu.

Mae ailgylchu can alwminiwm yn arbed 96% o’r ynni y mae ei angen i greu can o fwyn ac mae’n cynhyrchu 95% llai o lygredd aer a 97% llai o lygredd dŵr. Gellir ailgylchu alwminiwm dro ar ôl tro heb iddo golli priodweddau. Gellir ailgylchu dur hefyd dro ar ôl tro heb iddo golli priodweddau. Mae gwneud cynhyrchion dur newydd o ddur wedi’i ailgylchu yn hytrach na defnyddio mwyn newydd yn defnyddio 40% yn llai o ddŵr, yn creu 76% yn llai o lygredd dŵr, 86% yn llai o lygredd aer a 97% yn llai o wastraff yn sgil mwyngloddio.

## Eitemau

Mae'r eitemau sy'n gallu cael eu rhoi ym miniau 'ailgylchu caniau metel, tuniau, erosolau a ffoil' y Brifysgol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
|  | Gwag<br><br>Caniau bwyd dur |

| | |
|---|---|
|  | Gwag<br><br>Caniau diodydd ysgafn alwminiwm, caniau erosolau diaroglydd, cynwysyddion bwyd tafladwy, ffoil alwminiwm. |

Dylid rhoi tuniau a chaniau bwyd yn y biniau ailgylchu caniau'n unig (fel arfer yn rhan o resi o bedwar/ddau fin gwastraff safonol y Brifysgol).

Ni ddylid gwneud y canlynol o dan unrhyw amgylchiadau:

(a) rhoi tuniau bwyd a chaniau diodydd yn y bin gwastraff cyffredinol – mae'n atal deunydd gwerthfawr rhag cael ei adfer neu ei ailgylchu ac mae opsiynau ar gael.
(b) Lle y bo modd, dylid golchi caniau bwyd i leihau maint y gweddillion sy'n cael eu rhoi yn y bin ailgylchu.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

**Biniau mewnol**

Dylid defnyddio dim ond rhesi o bedwar/ddau fin 'Caniau metel, tuniau, erosolau a ffoil' recycling a bagiau clir i waredu caniau sydd i'w hailgylchu. Ni ddylid defnyddio cynwysyddion personol/o dan eich desg mewn swyddfeydd gan fod hyn yn atal ailgylchu deunyddiau.




Ffigur 1 – rhes o bedwar bin dan do Prifysgol Abertawe

**Biniau Allanol**

Dylid defnyddio dim ond rhesi o bedwar/ddau fin metel sydd â chaeadau wrth eu blaenau i waredu caniau i'w hailgylchu. Ni ddylid defnyddio biniau eraill ar gyfer eitemau rhydd.




Ffigur 2 – rhesi o bedwar bin allanol a bin contractwr allanol Prifysgol Abertawe.

Caiff bagiau bin clir a gesglir eu rhoi yn y biniau mwy dynodedig (wedi'u darparu gan y contractwr rheoli gwastraff), a leolir mewn cyfadeiladau ledled ystadau'r Brifysgol.

## Cost waredu

Mae'r gost o waredu'n cael ei hystyried fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaethau Proffesiynol.

## Labelu

Gweler templed

**I gael rhagor o arweiniad, e-bostiwch [Estates-Waste@abertawe.ac.uk](mailto:Estates-Waste@abertawe.ac.uk)**


caniau, tuniau,
erosolau a ffoil metel
metal cans, tins,
aerosols & foil